# Ysbrydoli...

Strategaeth Creadigrwydd a Chelfyddydau Cymru



Cygnor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

*Clawr blaen:* Gweithdy Ysgol Gynradd Romilly, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (llun: Kirsten Mcternan)

## Cenhadaeth i ysbrydoli

Mae amseroedd heriol yn galw am gamau pendant. Mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn parhau i hyrwyddo'n ddewr, yn ddychmygus a llawn gobaith yr hyn sy'n cynnal, bywiogi a chyfoethogi ein bywyd.

Dyna nod y celfyddydau.

Yng Nghyngor Celfyddydau Cymru ein gweledigaeth yw Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau wrth wraidd bywyd a llesiant ein gwlad.

Mae creadigrwydd yn rhychwantu creu yn y gymuned ac yn rhyngwladol - sy'n diffinio Cymru yn llygaid y byd. Ond mae sylfeini creadigrwydd ym mhob un ohonom – yn ein dychymyg, ein cyflawniadau a'n posibiliadau.

Rydym ni'n chwarae rhan allweddol ym mywyd diwylliannol Cymru. Mae angen inni ysgogi, eiriol ac arwain, lle bo'n briodol. Mae pobl yn disgwyl inni wneud hynny. Ond rydym ni'n gwybod yn dda nad oes gennym fonopoli ar syniadau da. Nid oes gennym chwaith gynllun manwl am yr hyn mae'r celfyddydau'n gallu bod. Mae'r un mor bwysig ein bod yn annog ac ysbrydoli eraill i ddod o hyd i'w lle eu hunain yn ein strategaeth ag ydyw i ni wthio i gael yr hyn sydd ei angen.

## Un pwrpas unedig

Mae gennym uchelgais mawr am gelfyddydau Cymru. Mae'r strategaeth yma'n adlewyrchu ein blaenoriaethau cyffredinol - ein hymrwymiad i greu Cymru lle mae'r croestoriad ehangaf o bobl yn gallu mwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt a Chymru lle mae ein talentau gorau yn cael eu datgelu, eu meithrin a'u rhannu a lle mae'r celfyddydau'n gryf a gwydn.

Dyma dri gair ein strategaeth:

Creu
Cyrraedd
Cynnal

Ond mae haenau o ystyr yn y geiriau yma.

Rydym ni'n ymddiddori yn y ffordd mae ystyron yma'n cydblethu â'i gilydd gan atgyfnerthu ei gilydd gydag un pwrpas. Rhan o'r un ymdrech yw creu celfyddyd a sicrhau ei bod yn cysylltu â phobl gan roi iddi waddol parhaus.

Inni mae **Creu** yn meddwl gwaith artistig. Rydym ni am feithrin amgylchedd i'n hartistiaid a'n sefydliadau celfyddydol sy'n eu galluogi nhw i greu eu gwaith gorau.

Oherwydd os ydym yn **Creu**'n dda, rydym ni'n ysbrydoli.

Ac os yw'n hysbrydoliaeth yn cyrraedd pobl, maen nhw'n deall beth sydd gennym. Ac maen nhw eisiau'r hyn sy'n gennym a'i werthfawrogi. Felly rhaid inni ysbrydoli ein pobl i fwynhau'r gorau sydd gan Gymru i'w gynnig a chymryd rhan ynddo. Rydym ni'n credu bod y profiad o gelfyddyd dim ond yn digwydd mewn gwirionedd pan fo'r gwaith yn taro tant a chysylltu â phobl. Mae hyn wrth wraidd ein hymrwymiad i **Gyrraedd** ac yn hollbwysig i gyrraedd yn ddyfnach ac ymhellach nag o'r blaen.

Ac os rydym ni'n creu rhywbeth o werth, neu gofleidio rhywun newydd, wrth wneud hyn y cwestiwn nesaf yw sut i amddiffyn a **Chynnal** y pethau yma ar gyfer yr amser i ddod.




Galeri (llun: © Galeri Caernarfon Cyf)

## Ein blaenoriaethau

Mae'r rhain yn ein **Cynllun Corfforaethol** – **"Er budd pawb"**

Mae dwy flaenoriaeth yn sail i'r strategaeth yma:

**1**

Hyrwyddo **Cydraddoldebau** yn sylfaen i'n hymrwymiad clir i gyrraedd pob cymuned ledled Cymru yn ehangach ac yn ddyfnach

**2**

**Cryfhau Gallu a Gwydnwch** y sector, gan alluogi talent greadigol i ffynnu

Mae'r Cyngor am newid y ffordd rydym ni'n gweithio i weithredu'r ddwy flaenoriaeth hyn.

Felly rydym ni'n gwneud trydydd ymrwymiad:

**3**

**Galluogi Cyngor y Celfyddydau i weithio'n fwy effeithiol**, gan gydweithio â mwy o ddychymyg gyda phartneriaid o anian debyg ledled Cymru

Mae'r blaenoriaethau hyn yn hanfodol i'n gwaith a chaiff eu hadlewyrchu yn ein penderfyniadau ariannu.

Nid dyma restr o bopeth bydd yn rhaid inni ei wneud dros y blynyddoedd nesaf. Nid yw'n benodol chwaith i unrhyw un gelfyddyd. Ac nid oherwydd ein bod wedi colli diddordeb mewn cerddoriaeth, theatr, dawns neu'r celfyddydau gweledol a chymhwysol. Ond nid nhw chwaith yw man cychwyn y strategaeth yma. Yn y gorffennol roedd strategaethau i'r celfyddydau unigol yn fodd o gyflawni gwaith. Ond mae'r rhain erbyn hyn yn sefyll ar wahân i'r her ehangach o ddeall sut mae creu a mwynhau'r celfyddydau a phwy sy'n ei wneud. Ond mae'r unigolyn creadigol sy'n creu a datblygu ei grefft, yn parhau i fod yn sylfaen i'n gwaith a'r strategaeth yma.

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio'n gyfreithiol 'lesiant' yn hawl ddinesig sylfaenol. Mae Cymru yn wynebu sawl her gymdeithasol-economaidd gymhleth. Mae llawer un wedi'i hetifeddu o'r gorffennol. Ond nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau nad ydym ni, drwy ein difaterwch neu'n diffyg meddwl, yn gadael y problemau yma i'r genhedlaeth nesaf. Mae llesiant a chynaliadwyedd yn llywio pob agwedd ar ein polisi.

Craidd ein gweledigaeth yw cael Cymru deg, ffyniannus a chynaliadwy ac ynddi bobl â gwell ansawdd i'w bywyd cymunedol. Felly rhaid ymddwyn a gwneud pethau'n wahanol. Rhaid ystyried y dyfodol wrth wneud penderfyniadau heddiw i sicrhau'r gorau i'n plant ac i blant ein plant.

Rydym ni am gael strategaeth sy'n gatalydd ac nid un sy'n rheoli'r gwaith neu'n cyfyngu arno. Bydd yn fodd diffinio celfyddydau Cymru yn ôl dychymyg yr artist ac ymgysylltiad y gynulleidfa, yn hytrach nag yn ôl labeli math neu gategori. Rydym ni hefyd am gydnabod bod ymarfer creadigol a gwaith artistiaid yn croesi ffiniau yn ogystal â chael eu diffinio ganddynt. Mae'n

bwysig meddwl ac ymddwyn yn wahanol gan gydweithio i wella sut rydym ni'n cynllunio dyfodol gwell.

## Creu ystyr: iaith a hunaniaeth

Ar drothwy'r mileniwm newydd roedd Cymru wrthi'n ei hailddiffinio ei hun. Roedd ein gwlad yn cefnu ar y diffiniad gwledig a diwydiannol a fu'n wir am yn y rhan fwyaf o'r ugeinfed ganrif. Roedd yn coleddu hunaniaeth ddinesig newydd drwy ddatganoli gwladwriaeth, her economaidd newydd ac ailsefydlu diwylliant deinamig a dwyieithog.

Rydym ni'n genedl ddwyieithog - yn gyfreithiol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, yn unigolion a chymunedau. Ein hieithoedd yn anad dim sy'n gwneud Cymru yn nodweddiadol. Mae iaith yn fodd i ddeall a mwynhau llenyddiaeth a diwylliant cyfoethog. Rydym ni'n deall ein hunaniaeth drwy ein hieithoedd. Rydym ni'n ymfalchïo yn y gymuned rydym ni'n perthyn iddi sy'n ymddiffinio drwy ei geiriau, ei diwylliant a'i phrofiadau. Mae'r celfyddydau'n ffynnu ar y ffaith bod sawl Cymru a gwahanol brofiadau o fyw yma – o ran diwylliant, daearyddiaeth, yr economi ac iaith.

Ond mae'n bwysig cydnabod bod y Gymru fodern yn gymdeithas amlieithog ac amlddiwylliannol mewn cenedl ddwyieithog. Os yw celfyddyd yn gallu adlewyrchu hyn, wedyn mae iaith yn ffordd o ddeall y llinynnau cysylltiol yn ein diwylliant cyffredin.

Byddwn ni'n hyrwyddo'n egnïol y disgwyliad bod pobl yn gallu ystyried cyfoeth eu diwylliant a'u creadigrwydd eu hunain drwy eu dewis iaith – yn aelod o'r gynulleidfa, yn ymgyfranogydd neu'n artist.

Mae hanes a thraddodiad yn gallu bod yn ffynonellau deinamig sy'n porthi ac ysbrydoli, ond nid os yw iaith (ac yn enwedig y Gymraeg) yn gorfod bod yn llwyr gyfrifol am ddarparu canlyniadau cymdeithasol eraill. Mae'r celfyddydau'n dibynnu ar lif ffres o syniadau newydd. Mae hyn yn cynnwys syniadau newydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n her greadigol i holl artistiaid Cymru ni waeth beth yw eu hiaith. Diwylliant y byd yw diwylliant Cymru a dyna briod faes ei waith.



Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2018 (llun: Aled Llywelyn)

## Buddsoddi yn y dychymyg

Nid cydymffurfiaeth yw hanfod celfyddyd. Mae celfyddyd yn cwestiynu, herio a synnu pobl. Swyddogaeth ein hartistiaid yw edrych y tu hwnt i'r amlwg a'r arwynebol gan ddefnyddio eu mewnweledigaeth, eu greddf a'u chwilfrydedd i fynegi drwy eu doniau ddealltwriaeth ddyfnach o'n lle yn y byd. Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn dychymyg.

Ydy hyn o bwys?

Mae pob cymdeithas yn hanes y byd wedi ei mynegi ei hun a chyfathrebu mewn ffordd addas i'w hamser. Heb y celfyddydau mae'n anodd dychmygu Cymru lwyddiannus, fywiog a diddorol. Byddwn ni'n parhau i chwilio am rinweddau arbennig y celfyddydau gorau - bod yn nodweddiadol, yn berthnasol, yn gymhellol ac yn hirbarhaus. Mae gennym ymrwymiad cadarn i ymarfer celfyddydol bywiog sydd wrth wraidd ein gweledigaeth.

Wrth gwrs mae celfyddyd yn darged sy'n symud o hyd. Mae'n croesi ffiniau ac ymwrthod â chael ei diffinio. Mae'r hen gymariaethau deuol – bod yn ardderchog neu'n hygyrch, bod yn elitaidd neu'n boblogaidd – yn rhai dadleuol iawn ac erbyn hyn bron yn amherthnasol. Mae ein diddordeb yn yr egin waith a'r gwaith cyflawn fel ei gilydd – mewn band ifanc ar gychwyn ei yrfa, neu theatrau, cerddorfeydd a chwmnïau opera sydd wedi'u hen sefydlu, mewn dramodydd neu sgriptiwr ffilm neu deledu.



Anna Boghiguian, *A meteor fell from the Sky* (2018) Artes Mundi 8 (llun: Polly Thomas)

Wrth gwrs bydd ein strategaeth yn cydnabod rôl ganolog y diwydiannau creadigol sy'n cynnwys gwaith masnachol a gwaith â chymhorthdal. Nid y farchnad yn unig sy'n gallu pennu llwyddiant y celfyddydau. Mae arian cyhoeddus yno am reswm. Mae'n rhoi'r hyn na all y farchnad ei roi - dewis, arloesedd, bod yn fforddiadwy ac annog pobl i gymryd risg.

## Buddsoddi mewn posibiliadau

Nid oes gennym unrhyw ddiddordeb mewn gwaith diflas na difflach.

Rydym ni am fuddsoddi mewn gwaith sy'n cyffroi ac ysbrydoli. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn gwaith newydd a chyfoes, yn enwedig lle mae'r gwaith yn ennyn diddordeb cynulleidfaoedd ehangach. Heb gelfyddydau byw, y cyfan bydd diwylliant yw amgueddfa i waith eildwym sy'n ceisio ail-greu traddodiadau'r gorffennol.

Wrth gwrs mae darn o hen gelfwaith cyfarwydd yn gallu cynnig profiad newydd i rywun newydd i'r maes. Mae rhaglennu craff yn cydnabod hynny a'i gynnwys. Mae croeso i'r fath sgil. Ond celfyddyd ffres a byw sy'n mynd â'n bryd.

Ni fyddwn ni'n ofni mentro pan fo hynny'n briodol. A byddwn ni'n disgwyl i dderbynwyr ein buddsoddiad wneud yr un peth – nid ar hap neu'n ddi-hid, ond yn hirben ac yn hyderus, gyda gwybodaeth ac arbenigedd. Mae'r drws yn agor yn ehangach wrth ei wthio. Mae ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yn dibynnu ar ymestyn gorwelion creadigol. Felly o symud o'r lle rydym ni'n teimlo'n gyfforddus, gyda dewrder, deallusrwydd a chwilfrydedd, byddwn ni'n creu celfyddyd sy'n wahanol, heriol a difyrrach.

# Creu... Cyrraedd... Cynnal...

Rydym ni'n disgrifio ein strategaeth am fynd i'r afael â'r her isod yn ôl ein blaenoriaethau corfforaethol.

## 1 Rhagor o bobl yn creu a mwynhau'r celfyddydau a hymryd rhan ynddynt

### Gwneud pethau'n wahanol

Cyfran fechan o boblogaeth Cymru yw'r bobl sy'n rheolaidd yn mwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Yr ateb yw gwneud y celfyddydau'n fwy poblogaidd ond hefyd ystyried a fyddai dulliau gwahanol o'u cynnig yn fwy deniadol.

Dylem ni gydnabod yn gliriach hunanfynegiant a diddordebau diwylliannol unigolion a chymunedau Cymru – creadigrwydd pob dydd. Dylem ni hefyd fod yn ofalus am sut rydym ni'n disgrifio a thrafod y celfyddydau. Weithiau mae diffiniadau traddodiadol o ddiwylliant, creadigrwydd a'r celfyddydau yn rhwystrau rhag cymryd rhan. Rhaid inni sicrhau bod ein harian yn talu am fathau gwahanol o gelfyddydau ac yn cyrraedd ystod ehangach o artistiaid a chymunedau. Wedi'r cyfan, rydym ni am annog rhagor o bobl Cymru i wneud y celfyddydau'n rhan o'u bywyd.

Drwy edrych yn wahanol ar y gelfyddyd sy'n cael ei chreu – a gofyn pwy, sut a ble? – rydym ni'n credu bydd yn cynyddu'r siawns o weld gwaith sy'n taro tant gyda phobl ac sy'n eu diddori'n fwy. Un her sylfaenol inni yw sicrhau bod cyfoeth y celfyddydau a'r profiadau sy'n dod gyda nhw ar gael i ragor o bobl.

Mae gwahanol ddulliau o ymgysylltu yn golygu gwahanol fathau o brosiect i gysylltu â phobl.

Mae'r celfyddydau'n gallu bod yn:

- egwyddor i drefnu cynlluniau
- dathliad
- sail i brotest ac ymgyrch
- syndod
- gwrthddywediad ac anghysur
- grym cysylltiol sy'n rhwymo'r unigolion a chymunedau wrth ei gilydd

Os yw'n gelfyddyd dda, bydd yn ymestyn ei chynulleidfa.

Rydym ni'n siŵr bydd celfyddydau Cymru yn gryfach ac yn fwy cyffrous a pherthnasol os ydyn nhw'n cynnwys rhagor o bobl. Mae pobl yn ystyried o hyd y celfyddydau ar gyfer pobl fwyaf breintiedig ein cymdeithas. Rhaid i hynny newid.

I rai, mae lle'r celfyddydau yn ein cymdeithas yn ddi-gwestiwn - mae'n naturiol iddynt yn economaidd ac yn gymdeithasol. I eraill, mae'r celfyddydau'n parhau i fod yn estron, yn bell ac yn anghyfarwydd. Mae'r celfyddydau y tu hwnt i'w profiad, yn ymylol i'w bywyd pob dydd neu wedi'u dibrisio gan ragfarnau neu ragdybiaethau.

### Yr achos creadigol dros amrywiaeth

Mae cydraddoldeb sylfaenol wedi'i sefydlu yn y gyfraith ac mae hynny'n bwysig. Ond yn fwy na hynny, rydym ni'n cydnabod grym deinamig celfyddyd sy'n gynhwysol ac sy'n defnyddio doniau pob aelod o'n cymdeithas. Rhaid parchu'r gwahanol leisiau sy'n perthyn i bawb sydd â nodweddion gwarchodedig. Yn benodol rydym ni am weld pobl anabl a phobl dduon, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yn cymryd rhan lawnach yn y celfyddydau.

Ffordd bwysig inni asesu perfformiad sefydliadau sy'n cael arian oddi wrthym yw tystiolaeth o'u hymrwymiad i gael byrddau rheoli a gweithlu mwy amrywiol.

Mae'n flaenoriaeth hollbwysig. Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sy'n cael ei adolygu bob 6 mis, yn safon inni gymharu ein cynnydd a'n canlyniadau ag ef. Ond y gwir gyflawniad fydd dod â gwaith amrywiol o'r ymylon i'r brif ffrwd, drwy'r sefydliadau a'r prosiectau rydym ni'n eu hariannu a thrwy ymddygiad ac arferion y Cyngor ei hun. Bydd y celfyddydau'n gyfoethocach a mwy ffyniannus o ganlyniad.

## Traddodiad ein celfyddydau cymunedol

Rhaid inni ofalu am ddatblygiad yr artist sy'n gweithio. Ond bu lle creadigrwydd beunyddiol wastad o bwys ym mywyd diwylliannol Cymru. I lawer o bobl dyma sut maen nhw'n cael eu gwir brofiad cyntaf o'r celfyddydau. Mae'n ffynhonnell o fwynhad, hamdden neu ymrymusiad sy'n gallu bod yn sail i yrfa yn y celfyddydau.

Yng Nghymru, mae traddodiad hir o weithgarwch celfyddydol cymunedol o safon. Mae gan y gorau o'r gwaith gymeriad cryf ac unigryw. Yr hyn sy'n bwysig inni yw newid, awduraeth a pherchnogaeth - gallu rhyfeddol yr artist i gydweithio ag unigolion a chymunedau i ddod o hyd i'w llais a datgloi profiadau newydd iddynt. Yn y pethau yma rydym ni'n ymddiddori. Gwaith sy'n grymuso a chysylltu, sy'n unigryw, dilys a hwyliog ac sydd ar ei orau'n newid bywyd pobl.

## Pobl a lleoedd

Mae'r celfyddydau'n goleuo a bywiogi ystod eang o strategaethau sy'n sail i'n bywyd dinesig. O'r Celfyddydau ac Iechyd i dwristiaeth ddiwylliannol, o gelfyddyd gyhoeddus i adfywio canol y dref, mae'r celfyddydau'n rhoi ystyr, dilysrwydd a llawenydd i'n bywyd pob dydd. Mae'r celfyddydau'n creu a chynnal swyddi, cyfoethogi ein gwasanaethau addysg, dod â phobl at ei gilydd, gwella llesiant cymunedol ac ansawdd ein bywyd.

Felly rydym ni'n adfywio cymunedau, lleoedd a bywyd pobl. Ond yn amlaf, cynhyrchu yw ein gwaith gan ddechrau o'r newydd yn y presennol, nid y gorffennol. Rydym ni ar dân eisiau annog y meddylfryd newydd yma.

Rydym ni wedi dysgu o'n gwaith gyda chelfyddyd gyhoeddus bod yn rhaid inni ganolbwyntio'n fwy ar y pwynt cyfarfod rhwng pobl a lle. Mae cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda gydag ymgysylltiad, creadigrwydd a dychymyg, yn fwy tebygol o ennill cefnogaeth y gymuned, hybu llesiant cymdeithasol ac annog datblygiad economaidd mwy cynaliadwy.

## Meithrin talent ifanc, tanio'r dychymyg

Mae creadigrwydd yn rhodd i bobl o bob oed. Ond mae gennym gyfrifoldeb penodol i blant a phobl ifanc. Hoffem ni roi iddynt y dechrau creadigol gorau posibl.

Mae'r celfyddydau'n meithrin gallu'r person ifanc i holi, gwneud cysylltiadau a datblygu meddwl annibynnol a beirniadol. Maen nhw'n gallu ysbrydoli pobl ifanc gydag uchelgais a hyder newydd, herio tlodi dyhead a thorri'r cylch o amddifadedd. Hon yw'r allwedd sy'n datgloi'r drws i addysg bellach ac uwch a chyflogaeth wedyn.

Nid yw ein cymdeithas erioed wedi bod mor llawn o ddelweddau a sain sy'n ymosod ar lygaid a chlustiau ein pobl ifanc. Mae rhaid felly wrth ffyrdd newydd o ddysgu, rhannu ac adeiladu profiad, gan ddarparu ymdeimlad o hyder, hunan-barch a gwerth. Rydym ni'n siŵr bydd ffyrdd newydd o wireddu talent a chreadigrwydd ar y gweill. Mae'n bwysig i addysg gyflawni ei hamcanion ond hefyd i'w hailddiffinio ei hun.

Mae ein strategaeth am ddysgu creadigol drwy'r celfyddydau'n cynnig ffyrdd newydd i

ysgolion ddefnyddio ffyrdd ymarferol o gynnwys cyffro ac ysbrydoliaeth creadigrwydd yn y stafell ddosbarth.

Mae ein dull yn canolbwyntio ar ddau amcan:

- cefnogi ein pobl ifanc i ddatblygu eu doniau creadigol
- meithrin amgylchedd i allu ysbrydoli, meithrin a dathlu'r dalent yna

Rydym ni am i gynifer â phosibl o bobl ifanc Cymru gael y cyfle i fod y gorau y gallan nhw, gan berfformio'n gyda'u cyfoedion ar y lefel uchaf. Yn anad dim, rydym ni am i bobl ifanc fwynhau creadigrwydd perthnasol a chyffrous a chymryd rhan ynddo.

## "Er budd pawb"

Dylai pobl Cymru gael y cyfle i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt ar hyd eu bywyd ac mewn llawer o leoliadau gwahanol. Dylai pobl ifanc, hen neu ganol oed gael y siawns i gymryd rhan mewn gweithgarwch creadigol. Nid ydym ni'n gallu esgus byddwn ni rywbryd yn gallu darparu i bawb yn gyfartal dros Gymru'n gyfan ond dylem ni, serch hynny, fod yn ymestyn yn ehangach nag ydym ni.



Dewch i ddathlu! *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau* (llun: Tom Martin)

## 2 Creu'r amgylchedd iawn i'r artist a'r celfyddydau ffynnu

### Sector celfyddydol gwytnach a chryfach

Os nid yw safon y dŵr yn dda, pa syndod bod y pysgod ynddo'n gwaelu? Rhaid wrth amgylchedd cefnogol i artistiaid a sefydliadau celfyddydol ffynnu. Byddwn ni'n chwarae rôl gliriach ac yn fwy entrepreneuraidd wrth nodi, meithrin a hyrwyddo doniau creadigol gorau Cymru ym mhob celfyddyd, pob cyfryngau a phob gwaith rhyngddisgyblaethol. Ansawdd, gallu a gwytnwch piau hi.

Rydym ni'n gallu cynnig cefnogaeth ar adegau allweddol yng ngyrfa artist. Ein nod yw creu amgylchiadau lle mae gyrfaoedd artistiaid Cymru ym mhob celfyddyd yn gallu ffynnu a pharhau – yn lleol a rhyngwladol, yn unigol neu mewn grwpiau. Cyfleoedd clir a llwybrau datblygu clir.

Drwy adeiladu galluoedd gweithwyr creadigol, byddwn ni'n gallu cadw ac adnewyddu'n well y gronfa greadigol o dalent sy'n gweithio yma. Byddwn ni'n gweld yn gliriach y camau penodol byddwn ni'n eu cymryd i gefnogi'r artistiaid yma. Byddwn ni'n datblygu doniau, cyfleoedd ac arian sy'n creu rhwydweithiau o artistiaid sydd newydd gychwyn neu sydd wedi eu hen sefydlu.

### Bod yn addas i'r diben

Yn y blynyddoedd diwethaf rydym ni wedi ailffocysu ein buddsoddiad ar grŵp o gwmnïau a sefydliadau rydym ni'n eu hariannu'n rheolaidd – sef Portffolio Celfyddydol Cymru. Rydym ni wedi annog y Portffolio i greu a chynnal gwaith artistig newydd ac ymestyn at gynulleidfaoedd newydd ac ehangach. Rydym ni wedi gofyn iddynt fod yn esiamplau diwylliannol, yn addas i'r diben i fodloni her yr 21ain ganrif yng Nghymru.

Bydd cefnogi'r portffolio i wneud y gwaith gorau posibl a phwysigrwydd y gynulleidfa yn parhau i fod wrth wraidd ein gwaith. Mae gwerth am arian o bwys. A ninnau'n stiwardiaid arian cyhoeddus, mae gennym gyfrifoldeb mawr i sicrhau bod arian cyhoeddus yn rhoi budd cyhoeddus.

Yn ddigon priodol, mae'r cyhoedd yn mynnu bod y bobl maen nhw'n eu hariannu'n effeithlon a chost effeithiol. Felly rydym ni'n disgwyl i'r rhai sy'n derbyn arian gael y pethau sylfaenol yn iawn a sicrhau eu bod yn rheoli eu gwaith a'u busnes yn dda.

Nid yw cael arian y cyhoedd yn hawl i neb - rhaid ei ennill. Rydym ni'n disgwyl i'n portffolio arwain o ran arloesi artistig, datblygu cynulleidfa a chynnal eu busnes.

Byddwn ni'n disgwyl i sefydliadau gael eu cynnal gan gymysgedd o arian cyhoeddus a phreifat. Mae modelau busnes newydd sy'n gallu elwa ar eiddo deallusol y gweithgareddau creadigol. Rhaid inni hefyd ddod o hyd i'r strategaeth entrepreneuraidd gorau a mwyaf deallus sy'n gwella popeth drwy ddefnyddio'n ofalus arian y Llywodraeth a'r Loteri.

### Arweinyddiaeth ein cwmnïau cenedlaethol

Am genedl fechan mae gennym gwmnïau cenedlaethol sy'n perfformio'n wych. Mae disgwyliad mawr arnynt i gynhyrchu gwaith mawr a chysylltu â chynulleidfaoedd ar draws Cymru. Yr her yw gwneud hyn mewn modd ystyrlon gan ymgysylltu'n wirioneddol â chymunedau. Rhaid i'n cwmnïau cenedlaethol yn anad neb gyflawni hyn.

Rhaid i bob cwmni cenedlaethol ddechrau gyda'r cwestiwn 'ym mha ffordd rydym ni'n genedlaethol?'

Mae gan Gymru a'i thair miliwn o bobl yr hawl i ofyn:

- sut mae'r cwmnïau cenedlaethol yn genedlaethol?
- sut maen nhw'n cysylltu â phobl Cymru a'u cynnwys yn eu gwaith?

Mae pob un o'n cwmnïau cenedlaethol yn frwdfrydig ac yn gweithio'n fedrus iawn. Her y dyfodol yw iddynt gyffwrdd â rhagor o bobl nag o'r blaen.

Mae sefydliadau cenedlaethol o hyd wrth wraidd ein strategaeth. Maen nhw'n bwysig ynddynt eu hunain ac am yr hyn maen nhw'n ei gynrychioli. I lawer – yn enwedig pobl y tu allan i Gymru – mae enw da ein sefydliadau cenedlaethol yn ffordd o fesur nerth a bywiogrwydd ein celfyddydau.

I'r cwmnïau hyn, mae bod yn genedlaethol yn gyfrifoldeb, nid yn hawl. Mae dyletswydd iddynt, yng Nghymru, i fod yn esiampl ym mhob ffordd:

- creu gwaith arwyddocaol yn genedlaethol a rhyngwladol
- arwain wrth ddatblygu celfyddydau Cymru
- meithrin partneriaethau a chysylltiadau i ddatblygu artistiaid newydd
- adeiladu cynulleidfaoedd y dyfodol

Mae gan ein cwmnïau cenedlaethol rôl bwysig ym mywyd ein diwylliant. Mae'n uchafbwynt creadigol sy'n dod o'r cysylltiad hir â'r bobl fwyaf talentog yma. Rydym ni'n annog hyn, yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae gwaith ein cwmnïau cenedlaethol wedi'i wreiddio yma.

Mae gan y celfyddydau perfformio gwmnïau cenedlaethol blaenllaw ond mae meysydd eraill ym mywyd Cymru sydd heb gorff cenedlaethol cyflawn. Bum mlynedd yn ôl roedd trafodaeth am sefydlu Canolfan Genedlaethol i'r celfyddydau gweledol. Ers hynny, mae Amgueddfa Genedlaethol wedi ymestyn ei lle i arddangos rhagor o'r celfyddydau gweledol cyfoes.

Ond mae'r angen ehangach yn aros o hyd. Mae llawer o bosibiliadau yn y maes. Agwedd bwysig ar ein strategaeth dros y cyfnod nesaf fydd archwilio sut i sicrhau llwyfan cenedlaethol cynaliadwy a phriodol i'r celfyddydau gweledol a chymhwysol.

## Cysylltu ar draws Cymru

Yng Nghymru mae gennym rwydwaith o ganolfannau celfyddydol, orielau a lleoliadau blaenllaw o wahanol feintiau ledled y wlad. I lawer o bobl Cymru, drwy'r lleoedd hyn maen nhw'n dod i gysylltiad rheolaidd â'r celfyddydau.

Ar eu gorau, maen nhw'n creu rhagoriaeth yn eu holl waith ac yn agos iawn at eu cymunedau. Mae'r sefydliadau yma'n entrepreneuriaid diwylliannol sy'n comisiynu a churadu gwaith newydd, manteisio ar y gwaith yma (drwy deithio gwaith neu gydgomisiynu), rhoi'r cyfleoedd a gwasanaethau i helpu artistiaid i ddatblygu a thyfu eu gwaith a hyrwyddo rhaglenni amrywiol o safon.

Mae llawer o sefydliadau mewn adeiladau'n cydnabod eu bod yn ganolfannau cymdeithasol a diwylliannol ac nad oes modd gwahanu'r ddwy agwedd ar eu bodolaeth. Rydym ni'n cefnogi'r pwyslais yma ar gysylltu â'r gymuned. Ond yn y pen draw, y celfyddydau yw ein priod faes. Felly mae ein diddordeb pennaf mewn sefydliadau celfyddydol cymunedol sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa.

## Cymru yn y byd

Mae rhagoriaeth a chreadigrwydd celfyddydau Cymru yn cyfrannu'n rymus i ddatblygu ein cysylltiadau diwylliannol ac economaidd â gweddill y byd. Rydym ni wedi dechrau ystyried yn fwy strategol ein presenoldeb ym mhob celfyddyd ar lwyfan y byd mewn gwyliau (dwyflynyddol a blynyddol) ac mewn cyfleoedd arddangos a'r hyn bydd yr artistiaid, sefydliadau a chwmnïau'n gallu ei ddarparu.

Byddwn ni'n denu gweithgarwch i Gymru sydd o fudd i'n celfyddydau. Rhaid i Gymru fod yn "agor siop" gan dderbyn ei siâr o fusnes rhyngwladol proffil uchel mewn cynadleddau diwylliannol, ffeiriau masnachol, digwyddiadau diwylliannol mawr a theithiau. Mae angen inni gystadlu'n rhyngwladol. Rhaid inni ennill digwyddiadau i Gymru a chynyddu ei chyfraniad iddi allu denu sylw'r byd.

Rhaid inni ddatblygu proffil rhyngwladol oherwydd ein cysylltedd diwylliannol a chynaliadwyedd y gyrfaoedd yma. Mae angen Diwylliant yn ein hiaith, Diwylliant yn ein hymgysylltu, Diwylliant yn ein hamrywiaeth. Rhaid i Ddiwylliant fod ein harwyddair inni. Bydd yn arwydd o'n gwerthoedd, ein creadigrwydd a'n huchelgais. Ac i wneud arddangos yn rhyngwladol yn elfen amlycach o ymarfer creadigol Cymru, rhaid inni sicrhau ein bod yn cefnogi gwaith sy'n cymharu'n ffafriol â gwaith gorau'r byd.

Mae rhychwant o bobl a sefydliadau sy'n creu mentrau a phartneriaethau rhyngwladol. Mae llawer o artistiaid a sefydliadau celfyddydol



*Skyline*, Peak (llun: Mike Erskine)
Gŵyl Syniadau Treherbert, artist Owen Griffiths

Cymru yn arwyddocaol yn rhyngwladol. Mae rhagor i'w wneud i agor marchnadoedd newydd i'w gwaith gan ddatblygu eu rôl yn llysgenhadon diwylliannol i Gymru. Drwy fraich ryngwladol y Cyngor, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, byddwn ni'n datblygu ein partneriaeth â Llywodraeth Cymru, y Cyngor Prydeinig a phartneriaethau eraill yng Nghymru i sicrhau bod artistiaid Cymru yn amlwg yn rhyngwladol.

## Ein byd digidol

Mae creadigrwydd yn treiddio drwy ein holl weithgarwch cymdeithasol ac economaidd. Mae creadigrwydd yn cyrraedd y tu hwnt i'w lle arferol ymhlith y celfyddydau a diwylliant. Mae creadigrwydd yn sgìl i ddod ag atebion arloesol i broblemau cyfarwydd ac annog ffyrdd newydd o feddwl ar draws pob sector. Economïau llwyddiannus y dyfodol fydd y rhai sy'n gallu elwa ar eu posibiliadau creadigol. Mae creadigrwydd yn gallu dod â llawer o fanteision fel creu incwm, twf a chyflogaeth i annog cynhwysiant cymdeithasol. Wrth ei wraidd mae 'cyfalaf dynol' sef pobl a sgiliau. Yn ein cymdeithas heddiw, mae hyn yr un mor bwysig ag unrhyw ystyriaeth economaidd arall.

Mae technoleg yn mynd yn llai o ran faint, yn rhatach, yn fwy pwerus ac yn treiddio i bob agwedd ar ein bywyd. Mae hefyd yn mynd yn fwy rhyngweithiol gan newid sut rydym ni'n profi cynnwys. Diolch i'r we, rydym ni wedi arfer â chael popeth rydym ni ei eisiau pryd ac ar ba lwyfan rydym ni ei eisiau. Os yw busnesau cyfryngol Cymru i ffynnu yn y farchnad gystadleuol yma, rhaid iddynt gynnig y math o gyfleustra, hyblygrwydd a dewis a gaiff pobl yn eu bywyd bob dydd.

Nid hysbysfwrdd digidol yn unig yw'r we erbyn hyn, mae'n lle cymdeithasol a diwylliannol. Erbyn hyn drwy dechnoleg mae'n bosibl creu cynnwys ac ymgysylltu ag ef mewn ffyrdd newydd. Mae hyn yn cynnig cyfle a her i gynhyrchwyr cynnwys. Mae disgwyliadau pobl a gafodd eu magu mewn byd digidol yn wahanol iawn i'r rhai a oedd wedi'u rhagflaenu. Mae technoleg isel ei chost yn cynnig ffyrdd newydd o gyfnewid safbwyntiau, syniadau, modelau busnes a chynnwys, a hynny'n gyflym iawn.

## 3 Rhoi'r cyfan ar waith

Mae'r celfyddydau'n newid ac esblygu, fel y mae'r byd o'n cwmpas. Rhaid i'n strategaeth ariannu adlewyrchu hynny. Rhaid inni hefyd fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd a chyfyngiadau ar y rhai a fydd yn ymuno â ni ar y daith.

Hyrwyddwr celfyddydau Cymru ydym ni. Ond rydym ni'n sicrhau bod y gwariant ar ein sefydliad ein hunain yn isel iawn, iawn. Y celfyddydau eu hunain yw buddiolwyr priodol arian y cyhoedd. Ac felly rydym ni wedi ymddwyn dros y blynyddoedd. Rydym ni wedi arbed arian drwy symleiddio ein prosesau, lleihau nifer ein staff a gwneud gwell defnydd o'n technoleg. Ond wrth gwtogi'r Cyngor, y perygl yw niweidio safon y gwasanaeth a fu mor bwysig i'n llwyddiant dros y blynyddoedd.

Felly ein nod yw creu Cyngor sydd:

- â'r celfyddydau wrth ei wraidd
- yn ardderchog ei ddarpariaeth
- yn gynaliadwy ei gost
- â pherthynas wahanol gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru

Mae ariannu wrth wraidd ein busnes ac efallai mai dyma'r agwedd fwyaf gweledol o'n gwaith. Ond rydym ni hefyd yn ymfalchïo yn ein gweithgareddau datblygu'r celfyddydau a meithrin posibiliadau'n ofalus ac amyneddgar.

Taith barhaus heb ddiwedd pendant yw datblygu'r celfyddydau. Serch hynny, rhaid inni adeiladu Cyngor sy'n gwybod ei flaenoriaethau, uno'r ei staff o gwmpas rhaglen waith a darparu'n effeithiol.

Rhaid inni ailfeddwl sail ein perthynas â rhanddeiliaid a phartneriaid. Rydym ni'n gweithio i feithrin, annog a chefnogi. Ond fel stiwardiaid arian cyhoeddus mae gennym hefyd gyfrifoldeb i sicrhau gwerth am arian a chanlyniadau atebol i'r cyhoedd. Weithiau mae hyn yn golygu ein bod yn tynnu'n groes i'r sector wrth inni geisio penderfynu ai tywys neu warchod yr ydym.

Mae angen model newydd, efallai rhywbeth yn debycach i'r hyn mae ein rhaglen dysgu creadigol yn ei wneud – grwp o staff cyfnod penodedig gydag asiantau ̂lleol sy'n cael eu contractio ar gyfer tasgau penodol. Neu byddem ni'n gallu bod hyd yn oed yn fwy cydweithiol gan ddatblygu cysylltiad dyfnach â mentrau eraill sydd wedi'u rhwydweithio ledled Cymru.

Mae'r bartneriaeth rhwng y Cyngor a llywodraeth leol yn arbennig o bwysig. Dyma sylfaen celfyddydau Cymru. Rhyngom, mae gennym y posibiliadau i gyffwrdd â bywyd pawb. Mae gan yr awdurdodau lleol eu gwybodaeth benodol, eu hystod eang o gyfrifoldebau, eu darpariaeth leol sy'n canolbwyntio ar eu dinasyddion a'u cynrychiolaeth ddemocrataidd. Mae gennym ein harbenigedd a'n safbwynt cenedlaethol a rhyngwladol o ran ymarfer a datblygiad celfyddydol. Mae'r ddau ohonom yn ariannu gweithgarwch creadigol. Mae'n gyfuniad pwerus.

Ond mae'r awdurdodau lleol yn wynebu gwneud toriadau sylweddol yn eu cynlluniau gwariant ar gyfer y dyfodol. Ac yntau'n faes dewisol o wariant, mae arian y celfyddydau'n parhau i gael ei wasgu fel bo gwariant statudol yn mynnu cyfran fwy o'u gwariant. Bydd angen ailfeddwl yn llwyr sut mae'r celfyddydau'n cael eu hariannu a'u datblygu'n lleol.



*Into the Light*, Theatr Hijinx (llun: Kirsten McTernan)

## Sut olwg fydd ar lwyddiant?

### Creu...

- Creu... Byddwn ni'n sicrhau bod cefnogaeth i artistiaid wrth wraidd popeth rydym ni'n ei wneud gan fuddsoddi yn yr unigolyn creadigol wrth ei helpu i ddatblygu ei waith, ei sgiliau a'i bosibiliadau; byddwn ni'n canolbwyntio ar artistiaid ond hefyd ar gynhyrchwyr creadigol, curaduron ac entrepreneuriaid diwylliannol

- Creu... Byddwn ni'n archwilio cyfleoedd busnes i artistiaid a chwmnïau ddatblygu marchnadoedd newydd neu agor posibiliadau newydd ar gyfer eu gwaith, gartref a thramor; byddwn ni'n gwneud mwy i fanteisio ar y posibiliadau o arddangosfeydd gan roi rhagor o gyfleoedd i weld a chlywed celfyddydau Cymru

- Creu... Byddwn ni'n annog mentrau sy'n cefnogi unigolion creadigol – drwy stiwdios, gweithleoedd, adnoddau, preswylfeydd, technoleg, a lleoedd ymarfer, datblygu a deori gwaith

- Creu... Byddwn ni'n parhau i gefnogi'r gorau o gwmnïau, sefydliadau a gwyliau Cymru gan eu galluogi i greu gwaith newydd sy'n cysylltu â'r gynulleidfa a chreu amgylchiadau i ddatblygu gwaith o'r fath

- Creu... Byddwn ni'n cefnogi rhaglenni uchelgeisiol, yn enwedig lle mae'n annog cynulleidfaoedd i fwynhau amrywiaeth ehangach o weithgareddau a chymryd rhan ynddynt

- Creu... Byddwn ni'n dod o hyd i ffyrdd newydd o annog a chefnogi cynhyrchu gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg

- Creu... Byddwn ni'n dod o hyd i gyfleoedd i bobl anabl a phobl dduon, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol i greu a hyrwyddo eu gwaith

- Creu... Byddwn ni'n annog cyfleoedd i artistiaid adeiladu perthnasau sy'n parhau gyda sefydliadau mewn partneriaethau sy'n fuddiol i'r ddwy ochr; byddwn ni'n buddsoddi mewn prosiectau a sefydliadau celfyddydol sy'n datblygu talent greadigol

- Creu... Byddwn ni'n dyfnhau ein cysylltiadau ag addysg uwch ac addysg bellach gan greu partneriaethau â ffocws sy'n ymchwilio a chefnogi'r syniadau a'r prosiectau sy'n datblygu gyrfaoedd artistig a chynnwys y gwaith

- Creu... Byddwn ni'n meithrin gwell cysylltiadau gydag asiantaethau partner drwy Brydain a thramor i hwyluso gwell amgylchiadau i deithio gwaith a chydweithiadau creadigol

- Creu... Byddwn ni'n canolbwyntio ar rwydweithio a chysylltu pethau, hybu cyfleoedd (rhithwir a go iawn) sy'n meithrin perthnasau cynhyrchiol, newydd i artistiaid, sefydliadau a chwmnïau, yma a thramor

- Creu... Byddwn ni'n datblygu'n rhagweithiol ddeinamig amrywiaeth greadigol a diwylliannol yn y Gymru gyfoes

- Creu... Byddwn ni'n bartner cyflenwi celfyddydol, egnïol ledled Cymru

- Creu... Byddwn ni'n archwilio cynnal digwyddiadau celfyddydol sy'n gallu bod yn gatalyddion heriol iawn i ddatblygu celfyddydau Cymru

## Cyrraedd...

- **Cyrraedd...** Byddwn ni'n mynd i'r afael â'r rhwystrau i ymgysylltu ac annog y rhychwant ehangaf o bobl Cymru i ymwneud â'r celfyddydau; mae ein cynllun cydraddoldeb strategol yn fframwaith i lywio ein gwaith
- **Cyrraedd...** Llythrennedd, rhifedd a chreadigrwydd; byddwn ni'n parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru i gyflawni uchelgais dysgu creadigol drwy'r celfyddydau
- **Cyrraedd...** Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i sefydlu rhaglen o waith sy'n canolbwyntio ar newid dyfodol y bobl sydd mewn perygl o beidio â bod yn weithgar yn economaidd, eu helpu i ddod o hyd i bosibiliadau a hyder newydd drwy'r celfyddydau
- **Cyrraedd...** Byddwn ni'n cydweithio â phobl ifanc i greu gŵyl dathlu creadigrwydd
- **Cyrraedd...** Byddwn ni'n rhoi pwys ar waith llawn dychymyg i bobl ifanc
- **Cyrraedd...** Byddwn ni'n cefnogi gwaith trawsnewidiol ein sefydliadau cymunedol
- **Cyrraedd...** Byddwn ni'n cefnogi'r defnydd arloesol a chreadigol o dechnoleg i artistiaid fanteisio ar blatfformau digidol newydd i hyrwyddo a dosbarthu eu gwaith
- **Cyrraedd...** Byddwn ni'n cydweithio â'n portffolio i ddatblygu mentrau adeiladu cynulleidfa ac ymgysylltu'n gymdeithasol
- **Cyrraedd...** Byddwn ni'n datblygu ein gwaith i gysylltu'r celfyddydau â phobl drwy bartneriaethau gyda'r awdurdodau lleol a sicrhau bod y bobl yn yr ardaloedd fwyaf difreintiedig â hygyrchedd at y celfyddydau
- **Cyrraedd...** Byddwn ni'n gweithio ar gysylltu'n well ddarpariaeth y canolfannau celfyddydol, sefydliadau'r celfyddydau cymunedol, Noson Allan a'r asiantaethau eraill i rannu a chynyddu gwaith sy'n canolbwyntio ar gymunedau
- **Cyrraedd...** Byddwn ni'n chwilio am gyfleoedd i uwchraddio a chreu prosiectau i sicrhau cyrhaeddiad eang a manteisio ar lwyfannau cyfryngol newydd i gynnwys pobl
- **Cyrraedd...** Byddwn ni'n monitro ein buddsoddiad, a'r gweithgareddau sy'n cael eu hariannu, i sicrhau bod pobl yn ein cymunedau amrywiol ledled Cymru yn cael cyfle teg i elwa ar ein gweithgarwch
- **Cyrraedd...** Byddwn ni'n ystyried ein gwaith partneriaeth i ehangu posibiliadau'r celfyddydau a'u cyrhaeddiad; erbyn hyn mae ein partneriaethau gwerth cyhoeddus gyda darlledwyr (y BBC ac S4C) wedi'u sefydlu a thrwy waith prosiect gydag eraill - Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Dŵr Cymru, Ymddiriedolaeth y Camlesi a'r Afonydd
- **Cyrraedd...** Byddwn ni'n datblygu'r posibiliadau i'n hartistiaid gyrraedd marchnadoedd a chynulleidfaoedd newydd i'w gwaith drwy Brydain a thramor
- **Cyrraedd...** Byddwn ni'n cydweithio â'r cwmnïau cenedlaethol i gyfleu ac annog datblygu eu gwaith cenedlaethol a chasglu tystiolaeth amdano
- **Cyrraedd...** Byddwn ni'n ymestyn cyrhaeddiad daearyddol y celfyddydau drwy ariannu teithio gwaith a chefnogi ac ymestyn ein gwaith mewn cymunedau drwy sioeau teithiol Noson Allan

## Cynnal...

- Cynnal... Byddwn ni'n cynorthwyo artistiaid, sefydliadau celfyddydol, cwmnïau a lleoliadau i adeiladu modelau busnes gwytnach
- Cynnal... Byddwn ni'n cefnogi'r mentrau a'r prosiectau sy'n meithrin ffyrdd newydd o gyflawni cynaliadwyedd diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
- Cynnal... Byddwn ni'n datblygu rhaglen ariannu sy'n cymell newid i sefydliadau gan eu hannog i wella eu cynaliadwyedd a bod yn llai dibynnol ar arian cyhoeddus
- Cynnal... Byddwn ni'n egluro'n glir ac yn gywir yr effaith mae ein buddsoddiad yn ei chael wrth gyflawni ein blaenoriaethau; byddwn ni'n glir am sail ein penderfyniadau ariannu; bydd ein fframwaith penderfynu'n cynnwys pedwar maes o effaith a gweithredu: celfyddydol; cymdeithasol; economaidd; amgylcheddol
- Cynnal... Byddwn ni'n disgwyl i'r sector celfyddydol ymrwymo wrth ragor o gynaliadwyedd amgylcheddol drwy leihau ei ôl troed carbon
- Cynnal... Byddwn ni'n disgwyl i sefydliadau celfyddydol ddangos arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol drwy gynnwys yn eu rheolaeth a'u gweithlu bobl sy'n amrywiol eu cefndir
- Cynnal... Byddwn ni'n datblygu rhwydweithiau ac ymarfer cydweithiol sy'n manteisio ar yr effeithlonrwydd a'r canlyniadau sy'n dod o rannu a chynyddu adnoddau
- Cynnal... Byddwn ni'n hyrwyddo'r defnydd creadigol o'r Gymraeg a mynegiant creadigol drwy gyfrwng yr iaith gan alluogi artistiaid Cymraeg i weithio yn eu dewis iaith ym mhob agwedd ar eu gyrfa
- Cynnal... Byddwn ni'n cydweithio'n agos â'n partneriaid yn yr awdurdodau lleol ledled Cymru i gynnal eu cysylltiad â'r celfyddydau lle rydym ni'n cydweithio i gynnal lleoliadau a gwasanaethau
- Cynnal... Byddwn ni'n cefnogi gweithgareddau sy'n darparu ffyrdd newydd o weithio i sicrhau gyrfaoedd cynaliadwy yn y celfyddydau
- Cynnal... Byddwn ni'n adolygu a datblygu ffyrdd newydd o eiriol; byddwn ni'n ystyried cynnwys beth rydym ni'n eiriol drosto, yr ymchwil angenrheidiol a sut rydym ni'n gallu ymgyrchu'n effeithiol dros y celfyddydau
- Cynnal... Byddwn ni'n datblygu gwaith sy'n mynd i'r afael â llesiant ym maes iechyd ac ymgysylltiad cymunedol gan ychwanegu gwerth at ansawdd bywyd yng Nghymru

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

celf.cymru